## Ysgol yr Hendre - Trelew, Patagonia, Yr Ariannin

Rydym yn chwilio am athrawes / athro Cymraeg sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer addysgu mewn Ysgol Gymraeg i weithio am 10 mis yn Ysgol yr Hendre yn ninas Trelew ym Mhatagonia. Bydd y tymor addysgu yn cychwyn ym mis Mawrth ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr, gyda phythefnos o wyliau ym mis Gorffennaf.

Mae Ysgol yr Hendre yn cynnig gwersi trwy gyfrwng y Sbaeneg yn ogystal â thrwy gyfrwng y Gymraeg. Blwyddyn 4 yw'r dosbarth uchaf ar hyn o bryd, ond o fis Mawrth 2011, bydd yr ysgol yn cynyddu i gynnwys Blwyddyn 5. Ystod oed y disgyblion yw 3 i 10, ond nid ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r system addysgu ym Mhatagonia yn wahanol iawn i'r drefn o addysgu sy'n bodoli yng Nghymru. Yr ydym, felly, yn chwilio am berson brwdfrydig sydd yn hoffi gweithio gyda phlant ac sy'n abl i weithio'n hyblyg mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd.

Bydd y sawl a benodir yn cydweithio yn yr ysgol gydag athrawes Sbaeneg a disgwylir iddi/iddo fod yn barod i ymgymryd â gwahanol weithgareddau allgyrsiol gyda phlant yr ysgol, fel Eisteddfodau a Nosweithiau Llawen.

Bydd y diwrnod gwaith yn cychwyn am 8 y bore ac yn gorffen am 4 y pnawn. Darperir cinio canol dydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn talu am docyn awyren o Lundain i Drelew. Telir cyflog ar raddfa tâl Y Wladfa. Darperir llety a bwyd gyda theulu o'r ardal, o bosib, yng nghartref un o'r rhieni sydd â phlentyn yn mynychu'r ysgol.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd, neu os ydych chi am dderbyn mwy o fanylion, cysylltwch â'r ysgol.







*Drwy gydweithrediad Ysgol yr Hendre, Trelew*